Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llangynnwr
**Lôn Penymorfa**
**Pensarn**
**Llangynnwr**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA31 2NN**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llangynnwr

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Llangynnwr mewn ardal wledig yn agos i dref Caerfyrddin. Mae'n darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg i'w disgyblion mewn dwy ffrwd. Addysgir disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn. Mae rhieni yn dewis ffrwd iaith ar gyfer eu plant o Flwyddyn 1 ymlaen. Mae 293 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 12 oed meithrin amser-llawn a 15 rhan-amser. Fe'u rhennir yn 11 dosbarth, gan gynnwys 4 dosbarth oedran cymysg. Mae yna naw dosbarth cyfrwng Cymraeg a dau ddosbarth cyfrwng Saesneg.

Tua 4% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 24% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Ionawr 2015 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn Ysgol Llangynnwr, mae lles disgyblion yn ganolog i waith yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda, maent yn awyddus i ddysgu ac yn dangos parch gwirioneddol at eraill. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol sy'n datblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Un o gryfderau'r ysgol yw ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a sicrhau lles disgyblion. Mae'r ysgol yn elwa o arweinyddiaeth gadarn, gyda ffocws cryf ar wella safonau a sicrhau bod yr holl disgyblion yn cyrraedd safonau uchel.

| Maes Arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafar Cymraeg yn y ffrwd Saesneg a gallu disgyblion yn y ddwy ffrwd i ddefnyddio’r Gymraeg wrth weithio’n annibynnol ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol

A2 Darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau mewn perthynas â’u dysgu ac i weithredu’n fwy annibynnol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2

A3 Sicrhau bod y camau gweithredu yn y cynllun datblygu ysgol yn ddigon miniog a’r meini prawf llwyddiant yn fesuradwy i hwyluso mesur effaith

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â threfniadau anghenion dysgu ychwanegol ac effaith rhaglenni ymyrraeth ar safonau a lles disgyblion i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r ychydig sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl yn effeithiol, er enghraifft wrth ddatrys problemau yn dilyn ymweliad â Phentywyn.

Mae medrau corfforol cynnar bron pob disgybl yn datblygu'n gadarn iawn. Maent yn cryfhau'u medrau drwy reidio beiciau yn rheolaidd yn ystod amseroedd chwarae a thrwy'r defnydd cyson o offer fel gefeiliau bach i godi geiriau o'r twb iâ.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud mewn gwersi ac yn ystyried safbwynt eu cyfoedion yn ofalus. Maent yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol yn Saesneg yn y ffrwd Saesneg ac yn y ddwy iaith yn y ffrwd Gymraeg. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn defnyddio ystod gynyddol o batrymau yn gywir.

Mae medrau darllen cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn defnyddio'u hymwybyddiaeth ffonolegol i adeiladu geiriau anghyfarwydd yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod eu storïau'n frwdfrydig ac yn darllen gyda rhugldер. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn magu cariad amlwg at ddarllen. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus ac aeddfed. Mae disgyblion mwy abl yn cymharu arddulliau a strwythur ysgrifennu gwahanol awduron yn fedrus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth am Fasnach Deg.

Yn gynnar iawn, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ffurfio llythrennau'n gywir ac yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau yn gymwys, er enghraifft wrth ysgrifennu am gylch bywyd broga yn y derbyn. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu'n hyderus ac yn amrywio brawddegau'n synhwyrol i greu effaith yn eu gwaith. Maent yn creu taflenni gwybodaeth am losgfynyddoedd yn y Gymraeg a diogelwch ar y we yn Saesneg. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu gwaith yn ddiddorol ar draws ystod eang o ffurfiau ysgrifennu. Maent yn defnyddio cwestiynau rhethregol yn fedrus mewn testunau perswâd, er enghraifft wrth ysgrifennu dadl o blaid ac yn erbyn torri coed yn fforest law Brasil. Mae bron pob disgybl yn cyflwyno'u gwaith yn raenus.

Er bod disgyblion yn ymuno â'r adran Saesneg ag ymwybyddiaeth gadarn o'r iaith Gymraeg, boddhaol yn unig yw cynnydd y rhan fwyaf yn y Gymraeg wrth iddynt fynd drwy'r ysgol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio brawddegau syml yn addas wrth gyfathrebu ag eraill. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio patrymau syml ar lafar wrth gyflwyno gwybodaeth am eu hunain, ond nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon hyderus mewn sgwrs syml. Yn gyffredinol, maent yn darllen yn lled hyderus ac yn defnyddio ystod addas o eirfa ac ymadroddion i ysgrifennu'n gymwys. Ar draws yr ysgol yn y ddwy ffrwd, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg wrth weithio'n annibynnol neu yn ystod amseroedd anffurfiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o rif, siâp, mesur a thrin data. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn mesur amlinelliad cyrff i'r centimetr agosach, gyda disgyblion mwy abl yn defnyddio centimetrau a metrau yn gymwys. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio eu medrau rhif yn effeithiol wrth ddatrys problemau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn cofnodi canlyniadau arbrawf tymheredd dŵr yn gywir ar graff llinell i ddangos y newid yn y tymheredd. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn datrys problemau sefyllfaoedd go iawn yn fedrus, er enghraifft wrth gyfrifo cost cinio ar gyfer yr holl ddisgyblion ar eu taith breswyl i Bentywyn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol yn eu medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn trin offer TGCh yn effeithiol, er enghraifft wrth recordio perfformiad yn yr ardal tu allan. Maent yn defnyddio pecynnau celf yn fedrus wrth dynnu lluniau o sgerbydau i gyd-fynd â stori. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio taenlenni yn addas i gadw mesuriadau yn ystod gwersi gemau a'u trosglwyddo i graff llinell. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn defnyddio basau data yn briodol i gadw gwybodaeth am anifeiliaid, er nid yw eu gallu i archwilio'r bas data wedi datblygu'n llawn eto.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae ymddygiad bron pob disgybl mewn gwersi, gwasanaethau, wrth symud o amgylch yr ysgol ac yn ystod amseroedd hamdden yn dda iawn. Maent yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch, yn agor drysau iddynt ac yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol. Mae bron pob disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac mae'r 'Bydis Buarth' yn gofalu am eraill yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydyn nhw'n gofidio am rywbeth. Maent yn mynegi eu teimladau bob bore ar raglen gyfrifiadurol ac yn penderfynu gyda phwy y maent eisiau rhannu'r wybodaeth. Maent yn hyderus fod yr ysgol yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn brydlon. Mae bron pob disgybl yn credu bod yr ysgol yn trin unrhyw achosion o fwlio yn dda ac mae disgyblion wedi creu fideo effeithiol i gyflwyno polisi gwrth-fwlio'r ysgol sydd ar gael ar eu safwe. Mae gan bron bob un ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y we.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach. Maent yn sôn am ba fwydydd sy'n rhai iach a phwysigrwydd brwsio'u dannedd yn rheolaidd. Maent yn deall pwysigrwydd ymarfer corff ac yn ymfalchïo yn yr amrywiaeth o glybiau chwaraeon sydd ar gael yn ystod ac ar ôl ysgol. Mae hyn yn hybu ffitrwydd corfforol yn llwyddiannus.

Mae bron pob disgybl yn dangos agwedd bositif at eu gwaith ac maent yn dyfalbarhau â'u tasgau yn dda. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion mewn grwpiau ac mewn parau ac yn dangos parch at farnau pobl eraill. Mae disgyblion yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri ac yn datblygu eu medrau bywyd a chymdeithasol yn llwyddiannus. Mae'r 'Dreigiau Digidol' yn cynnal gweithdai gwerthfawr sy'n cael effaith gadarnhaol ar wella medrau digidol disgyblion a staff. Mae'r 'Swyddogion' yn helpu gofalu am drefn a diogelwch y disgyblion wrth iddyn nhw adael gwasanaethau ysgol ac wrth iddynt ddod yn ôl i mewn i'r ysgol ar ôl amseroedd chwarae a chinio.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd sydd ganddynt i chwarae rhan yn eu cymuned, er enghraifft drwy gymryd rhan mewn gwasanaethau eglwys a chyfrannu at raglenni ar y radio.

Mae cyfraddau presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf wedi gwella yn flynyddol. Dros yr un cyfnod, mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi lleihau'n sylweddol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol gan amlaf yn dda. Mae hyn yn seiliedig ar berthynas waith agos rhwng staff a disgyblion gyda ffocws cryf ar greu awyrgylch dysgu diogel ar gyfer pob disgybl.

Mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn adnabod eu disgyblion yn dda ac, yn gyffredinol, yn teilwra gweithgareddau dosbarth i fodloni anghenion disgyblion o bob gallu yn llwyddiannus. Mae gan ran fwyaf yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau dysgu yn effeithiol. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn sicrhau cyflymder sionc i wersi. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i weithio mewn parau, grwpiau ac yn annibynnol ac yn holi'n fedrus i annog disgyblion i feddwl yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae cyflwyniadau gwersi'n fywiog ac yn sbarduno disgyblion i ddysgu yn effeithiol. Er enghraifft, mae staff yn gwisgo fel cymeriadau'r Cogydd Cynnwr a'r Deintydd er mwyn cyflwyno gweithgareddau bwyta'n iach mewn ffordd hwyliog i ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi gwella'r defnydd o strategaethau asesu ffurfiannol. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn erbyn meini prawf llwyddiant. Mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau, darperir cyfleoedd effeithiol i gynnig gwelliannau ar waith disgyblion mewn ysgolion eraill drwy flogio. Yn gyffredinol, mae bron pob un athro yn cynnig adborth effeithiol ar lafar er mwyn symud y dysgu ymlaen. Mae sylwadau ysgrifenedig yn cynnig adborth buddiol i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith dilynol, ond nid oes digon o gyfleoedd i wella cynnwys y gwaith bob tro.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n fanwl i sicrhau dilyniant a pharhad yn y medrau pwnc a medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn cynllunio'n thematig ac yn cynnwys syniadau disgyblion yn y cynllunio yn briodol. Maent yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau o dan arweiniad oedolyn a chyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Yn yr ychydig o enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu. Er enghraifft, yn dilyn cyflwyniad ar fesur, mae grŵp o ddisgyblion yn penderfynu adeiladu llwyfan yn yr ardal tu allan gan fesur yr ochrau mewn centimetrau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn cynllunio nifer o brosiectau cyffrous sy'n datblygu medrau'r disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r gwaith ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau ar draws y byd yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu ystod eang o fedrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Maent yn cyfrifo'r gymhareb menywod a dynion sy'n dylanwadu ac yn gwneud penderfyniadau pwysig yn y gymuned wrth edrych ar ddata o'r we. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio arferol bob tro yn galluogi athrawon i fod yn ddigon hyblyg i ymateb i syniadau a diddordebau disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau gwerthfawr ar gyfer sicrhau bod disgyblion o’r ffrwd Saesneg a’r ffrwd Gymraeg yn cael yr un cyfleoedd a phrofiadau. Mae staff yn cynllunio ar y cyd er mwyn sicrhau cysondeb rhwng yr adrannau yn fuddiol. Mae grwpio disgyblion ar draws yr adrannau ar gyfer gwersi Saesneg yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau Saesneg disgyblion.

Mae’r ysgol yn cyfoethogi’r cwricwlwm yn llwyddiannus gydag ystod eang o ymweliadau sy’n ymwneud â gwaith yr ysgol a thrwy wahodd ymwelwyr i mewn i’r ysgol. Mae prosiectau fel gweithio gyda bardd lleol yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a chreadigol yn effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol sy’n rhoi pwyslais mawr ar les disgyblion. Darperir cefnogaeth o ansawdd uchel i ddisgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol ac mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ymgysylltu’n dda iawn â’u dysgu. Enghraifft arbennig o’r gefnogaeth yw’r defnydd o deganau adeiladu i alluogi disgyblon i siarad am eu teimladau mewn grwpiau bach, anffurfiol. Mae hyn yn rhoi’r medrau’r angenrheidiol iddynt er mwyn eu paratoi ar gyfer bywyd tu allan i’r ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau defnyddiol iawn ar gyfer olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae’r gweithdrefnau hyn yn galluogi athrawon i adnabod anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn gynnar iawn. Mae’r defnydd o’r system olrhain data yn sicrhau bod staff yn targedu grwpiau o ddisgyblion yn fuddiol ac yn darparu ar eu cyfer. Mae’r ystod eang a chynhwysfawr o raglenni a strategaethau ymyrraeth yn galluogi disgyblion a grwpiau o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf iawn yn eu dysgu a’u datblygiad personol. Mae rhaglen i ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion yn cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau disgyblion.

Mae cynlluniau addysg unigol effeithiol gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r cynlluniau yn benodol a mesuradwy ac mae disgyblion a’r rhieni yn cyfrannu’n bwrpasol at lunio targedau. Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos ag ysgolion lleol er mwyn rhannu arfer dda i sicrhau cefnogaeth o ansawdd uchel i’r disgyblion hyn.

Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol gyfoethog sy’n hyrwyddo agweddau fel cydraddoldeb, amrywiaeth a chynaliadwyedd yn effeithiol. Mae’r pwyslais ar ddatblygu gwerthoedd yn amlwg ym mywyd yr ysgol. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni’r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo arferion cadw’n iach yn llwyddiannus. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am arferion bwyta ac yfed yn iach. Maent yn sicrhau cyfleoedd buddiol iddynt ymgymryd â sesiynau ymarfer corff mewn gwersi ac mewn sesiynau allgyrsiol. Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau allgyrsiol er mwyn hybu ffitrwydd disgyblion yn effeithiol, gan gynnwys clwb sgïo a chlwb rhedeg.

Mae’r ddarpriaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn effeithiol. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i arbrofi ag ystod o gyfryngau celf ac i weithio gydag amryw o artistiaid lleol er mwyn arddangos eu gwaith yn yr oriel gelf

leol. Mae disgyblion yn cael nifer o gyfleoedd buddiol i berfformio a chanu yn yr ysgol a'r gymuned. Mae côr yr ysgol yn perfformio'n rheolaidd yn yr eglwys leol ac yn y dref ac mae disgyblion yn cystadlu'n rheolaidd mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Llwydda i rannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Ers ei benodiad, mae wedi creu cyfeiriad strategol clir i'r ysgol sydd yn seiliedig ar godi safonau a lles disgyblion. Mae'r parch ac ethos o gydweithio agos iawn yn amlwg rhwng yr uwch dîm rheoli a'r staff. Gyda chefnogaeth frwd y staff a'r llywodraethwyr, mae'r pennaeth wedi datblygu cyfundrefn newydd sydd yn dosbarthu cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae hyn yn arwain at welliannau yn y ddarpariaeth a safonau ac yn sicrhau llinellau atebolrwydd clir. Er enghraifft, mae ansawdd uchel y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a'u lles. Mae'r gwaith ar gryfhau gweithdrefnau presenoldeb wedi gwella presenoldeb disgyblion ac wedi lleihau canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson.

Defnyddia'r arweinwyr gyfarfodydd fel cyfryngau effeithiol i drafod data perfformiad a chynllunio ac i fonitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau ysgol. Drwy'r defnydd medrus o weithdrefnau trylwyr rheoli perfformiad, mae arweinwyr yn dwyn staff i gyfrif am eu perfformiad yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd drwy arbrofi â gosod heriau penodol ar gyfer disgyblion ar waelod cyfnod allweddol 2 yn seiliedig ar egwyddorion y cyfnod sylfaen. Mae'r ysgol yn paratoi'n bwrpasol i wireddu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn, yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Maent yn arfarnu gwaith eu hunain yn fuddiol ac maent wedi sefydlu pwyllgor strategol i ffocysu'n fwy manwl ar ddata, safonau, hunanarfarnu a datblygiad ysgol. Mae hyn wedi cryfhau eu dealltwriaeth o gryfderau a diffygion yr ysgol. Maent yn gweithredu'n dda fel cyfeillion beirniadol ac yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

Mae diwylliant o hunanarfarnu parhaus wedi gwreiddio'n ddwfn ym mywyd yr ysgol. Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweithdrefn hunanarfarnu trylwyr a chadarn sydd yn datblygu dealltwriaeth staff o gryfderau a diffygion yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn fanwl ac wedi'i seilio ar ystod eang o dystiolaeth. Ceir cyswllt clir rhwng deilliannau'r broses hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun, er braidd yn swmpus, yn cynnwys targedau gwelliant pwrpasol a blaenoriaethau clir. Yn gyffredinol, mae'n arf effeithiol i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Er enghraifft, mae'r gwaith ar wella ysgrifennu estynedig wedi cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i ysgrifennu'n bwrpasol mewn ystod eang o ffurfiau ysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu yn y cynllun datblygu bob tro'n ddigon clir na'r meini prawf llwyddiant yn ddigon meintiol i alluogi arweinwyr i fesur cynnydd yn llwyr effeithiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon a staff ategol.  Mae'r hyfforddiant a ddarparwyd i ddatblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi arwain at ddefnydd effeithiol o'r strategaethau hyn yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a gwna ddefnydd effeithiol o fedrau unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu.  Er enghraifft, defnyddir arbenigedd staff yn fedrus i addysgu pynciau fel celf ac addysg gorfforol.  Gwnânt ddefnydd gwerthfawr o adnoddau dysgu i gyfoethogi'r cwricwlwm.  Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi gwella'r ardal tu allan ac mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol er mwyn gwella medrau disgyblion wrth weithio yn yr awyr agored.

Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod y gwariant yn cysylltu'n dda â'r cynlluniau ar gyfer gwelliant.  Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion bregus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/11/2017